# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

**Y Cynghorydd Malcolm James**

**Ward: Llangynwyd a Chwmfelin**

**Plaid: Plaid Cymru**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2018. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**<u>Rôl a Chyfrifoldebau</u>**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Llangynwyd a Chwmfelin ar 7 Mai 2008 ac ym mis Mai 2016 cefais fy ailethol ar gyfer trydydd tymor. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 47 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill yn y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill y gofynnwyd i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon.

**<u>Gweithgarwch Etholaeth</u>**

Rwy'n gynghorydd cymuned dros Ganol Llangynwyd, ac wedi bod yn am y 28 mlynedd diwethaf. Deuthum yn gadeirydd ym mis Awst y llynedd; pan oedd yn rhaid i'r cadeirydd presennol gamu i mewn i rôl y clerc ac nid oedd yr is-gadeirydd yn teimlo ei fod yn gallu cymryd y gadeiryddiaeth.

Rwyf hefyd yn llywodraethwr ysgol cynghorydd bwrdeistref yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, lle rwy'n eistedd ar y Pwyllgorau Iechyd a Diogelwch, Cyllid a Chwyno ac Apeliadau.

Ddydd Gŵyl Dewi rwy'n mynd i Ysgol Gynradd Llangynwyd drwy'r dydd, lle rwy'n beirniadu cystadlaethau ac yn cyflwyno gwobrau i'r plant.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwy'n un o sylfaenwyr ac un o'r cwis feistri presennol tîm cwis y Railway Inn sy'n codi arian ar gyfer elusennau lleol ac wedi gwneud hynny am dros 25 mlynedd.

Rwyf hefyd yn canu ac yn chwarae'r gitâr yn nigwyddiadau Eglwys Cynwyd Sant, yn enwedig y cynhaeaf, ciniawau Sefydliad y Merched ac weithiau digwyddiadau elusennol eraill. Eleni roedd hynny'n cynnwys un o gyngherddau elusen y Maer.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Yn aml gallwch fy ngweld fel Siôn Corn, dyn bwganllyd a hyd yn oed cwningen fawr iawn y Pasg ar gyfer y cyngor cymuned.
Rwyf hefyd yn helpu ar y glwyd yng ngemau cartref clwb Rygbi Harlequins Maesteg yn South Parade.
Rwy'n cefnogi Cymdeithas Operatig Maesteg a'r Gleemen ac rwy'n aml yn mynd i'w digwyddiadau.

**Y Cynghorydd Malcolm James :** **Dyddiad: 30/5/2018**